CIWB

## Tasg 3

# Pen-blwydd Ben

Rydych chi'n mynd i helpu Sam i drefnu parti pen-blwydd Ben.

1. Defnyddiwch rai o'r syniadau yn y darn os ydych chi eisiau (ond does dim rhaid i chi!).
   Rhaid meddwl am:
   - ble
   - pryd
   - pwy sy'n dod i'r parti
   - dillad (Gwisg ffansi? Thema arbennig? Dillad smart? Dillad pob dydd?)
   - bwyd (Pa fath? Pwy sy'n gwneud y bwyd?)
   - adloniant (Cerddoriaeth? Dawnsio? Gemau?)

   Hefyd – mae £50.00 i drefnu'r parti yma – dim mwy!

   Trefnwch y parti.
   Gweithiwch allan faint mae popeth yn mynd i gostio – ac ysgrifennwch y symiau mewn grid fel yr un yma, e.e.

| | Cost | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ble: y pwll nofio | £4.00 y person x 8 person | £32 |
| Bwyd: | Pizzas: 8 pizza (o'r rhewgell – tŷ Ben)<br>Cacen pen-blwydd<br>Creision (2 becyn mawr) | £8.00<br>£8.00<br>£1.70 |
| Adloniant (tŷ Ben): | Chwarae gemau fideo | £0.00 |
| | | |
| | Cyfanswm: | 49.70 |

2. Ysgrifennwch e-bost yn gwahodd pobl i'r parti.

   Ydych chi'n cofio sut i wahodd?
   Siaradwch am hyn gyda phartner ac ysgrifennwch y patrymau ar ddarn o bapur.

| Geirfa | |
|---|---|
| trefnu | to arrange, organize |
| defnyddio | to use |
| dim mwy | no more |

Ewch i'r dudalen nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| At: | | ©at bwy |
| Oddi wrth: | | ©eich cyfeiriad e-bost chi |
| Testun: | | ©am beth mae'r e-bost |
| | | ©beth<br>©ble<br>©pryd<br>©pwy sy'n dod i'r parti<br>©dillad / thema<br>©bwyd<br>©adloniant<br>©gwahodd<br>©hwyl fawr<br>©eich enw chi |

3. Darllenwch yr e-bost oddi wrth eich partner chi. Atebwch yr e-bost.

Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Diolch am y gwahoddiad i ... yn ... ar ... | Thank you for the invitation to ... at ... on ... |
| Dw i'n gallu dod.<br>Dw i'n edrych ymlaen achos ... | I can come.<br>I'm looking forward because ... |
| Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod achos ... | I'm sorry, I can't come because ... |
| Mae'r flin gyda fi, dw i ddim yn gallu dod achos ... | I'm sorry, I can't come because ... |
| Dw i'n siomedig achos ... | I'm disappointed because ... |
| Pob hwyl! | All the best! |

| Geirfa | |
|---|---|
| oddi wrth | from |